Swyddfa Comisiynydd
Yr Heddlu a Throseddu
GWENT
Office of Police and
Crime Commissioner

# Gweithdrefn ar gyfer Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb?

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o sut bydd Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd yn ategu dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (Swyddfa'r Comisiynydd), yn ogystal â nodi potensial ar gyfer unrhyw effaith negyddol sylweddol ar bobl neu grwpiau o bobl. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amlinellu unrhyw gamau i unioni hyn hefyd.

Er mwyn hwylustod, yn y ddogfen hon defnyddir y term 'Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd', ond rhaid cymryd ei fod yn golygu unrhyw swyddogaethau, gweithgareddau neu benderfyniadau a allai effeithio ar gymunedau allanol neu bersonél mewnol.

## 1.0 Adran Adnabod

| | |
|---|---|
| **Teitl Polisi / Gweithdrefn:** | **Gweithdrefn ar gyfer Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg** |
| **Rheolwr Arwain Swyddfa'r Comisiynydd** | **Prif Weithredwr** |
| **Perchennog y Polisi:** | **Pennaeth Strategaeth** |
| **Dyddiad Gweithredu:** | **Rhagfyr 2020** |
| **Dyddiad Adolygu:** | **Rhagfyr 2024** |

## 2.0 Pwrpas

### 2.1 Nodau

**Beth yw amcanion y Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd a sut maent yn gysylltiedig ag amcanion ehangach y sefydliad?**

Nod y weithdrefn hon yw sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y sefydliad â Safonau'r Gymraeg yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y Safonau hynny.

Mae'r ddogfen yn ategu ymrwymiad y sefydliad i weithio i gyflawni gwasanaeth dwyieithog mewn perthynas â phlismona a chyfrifoldebau eraill a osodir ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae rhagor o wybodaeth am swyddogaeth y Comisiynydd ar gael yma:
https://www.gwent.pcc.police.uk/cy/amdanom-ni/fy-nghyfrifoldebau/

### 2.2 Ysgogwyr

**Beth sy'n ysgogi neu'n symbylu datblygiad y Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd hwn?**

- Datblygwyd y weithdrefn yn unol â'r gofynion a osodwyd ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan Safonau'r Gymraeg.

- Ei bwriad yw sicrhau dull cyson ac effeithiol o ymdrin â chwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth Swyddfa'r Comisiynydd â Safonau'r Gymraeg.

### 2.3 Dyletswyddau Cydraddoldeb

**Mae'r adran hon yn amlinellu a yw'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd hwn yn helpu i gefnogi dyletswyddau cydraddoldeb Swyddfa'r Comisiynydd, ac ym mha ffordd.**

2.3.1 **Sut mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd hwn yn helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth?**

- Nod y weithdrefn hon yw dileu gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg wrth sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y sefydliad â Safonau'r Gymraeg yn effeithiol a galluogi gwelliannau.

2.3.2 **Sut mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd hwn yn helpu i ddatblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

- Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchodedig, fel sefydliad rydym wedi ei gwneud yn gydnaws â'r nodweddion gwarchodedig er mwyn cadarnhau ein dulliau o ddarparu gwasanaethau ar gyfer ein cymunedau allanol a mewnol sy'n siarad Cymraeg.

2.3.3 **Sut mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd hwn yn helpu i feithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

- Nod y weithdrefn hon yw darparu proses effeithiol i sicrhau yr ymdrinnir yn deg â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg a rhoi sicrwydd o ddyheadau’r sefydliad wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

2.3.4 **Sut mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd hwn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

- Nod y weithdrefn hon yw sicrhau na wahaniaethir yn anfwriadol yn erbyn pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau sy'n gydnaws â Safonau'r Gymraeg.

2.3.5 **Sut mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd hwn yn cael effaith gadarnhaol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

- Mae'r weithdrefn hon yn benodol ar gyfer cydymffurfiaeth y sefydliad â Safonau'r Gymraeg.

## 3.0 Asesiad

**Mae'r adran hon yn asesu a oes unrhyw agweddau ar y Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd, gan gynnwys sut mae'n cael ei ddarparu neu sut y ceir mynediad ato, a allai gyfrannu at anghydraddoldeb neu wahaniaethu.**

### 3.1 Oedran

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolyn mewn perthynas ag oedran.

## 3.2 Anabledd

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolyn gydag anabledd cydnabyddedig neu ganfyddedig.
- Os gofynnir amdano, gellir darparu fersiwn braille (gan gynnwys braille Cymraeg), sain neu fersiwn print bras o'r polisi hwn.

## 3.3 Ailbennu Rhywedd

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolion o unrhyw rywedd sydd wedi cael triniaeth ailbennu rhywedd neu sydd yn y broses o ailbennu rhywedd.

## 3.4 Priodas a Phartneriaeth Sifil

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolion sydd wedi dewis ymgymryd ag unrhyw bartneriaeth gyfreithiol gydnabyddedig.

## 3.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolyn a allai fod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth.

## 3.6 Hil

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolyn neu grŵp o unrhyw hil neu gefndir diwylliannol.

## 3.7 Crefydd neu Gred

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolyn neu grŵp sydd â chredoau crefyddol.

### 3.8 Rhyw

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolyn neu grŵp ar sail eu rhyw.

### 3.9 Cyfeiriadedd Rhywiol

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith negyddol sylweddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?**

- Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw unigolyn neu grŵp ar sail eu rhyw neu rywioldeb.

### 3.10 Y Gymraeg

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd gael effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

- Nod y weithdrefn hon yw cefnogi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg trwy alluogi'r sefydliad i roi sylw effeithiol i unrhyw gwynion neu anfodlonrwydd cyhoeddus yn ymwneud â'i gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

**A allai'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd drin Y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

- Nod y weithdrefn hon yw cefnogi ymrwymiadau'r sefydliad dan Safonau'r Gymraeg ac mae'n ategu ein gwaith i drin y Gymraeg yr un fath â'r Saesneg.

## 4.0 <u>Camau Gweithredu a Chanlyniadau</u>

**Mae'r adran hon yn rhestru unrhyw gamau gweithredu y bydd angen eu cymryd er mwyn rhoi sylw i unrhyw effaith niweidiol sydd wedi cael ei nodi.**

### 4.1 Cynllun Gweithredu

**(i) Effaith a nodwyd:**

- Ni nodwyd unrhyw effaith

**(ii) Cam Gweithredu:**

- Ddim yn berthnasol

**(iii) Sail Resymegol:**

- Ddim yn berthnasol

**(iv) Dyddiad Cwblhau:**

- Ddim yn berthnasol

**(v) Dyddiad Adolygu:**

- Ddim yn berthnasol

## 4.2 Canlyniadau

**Mae'r adran hon yn crynhoi canlyniad y Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd yn dilyn yr asesiad hwn.**

- **A oes angen newid y Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd?**
  Nac oes

- **A oes angen newid mawr i'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd?**
  Nac oes

- **Mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd wedi cael ei addasu i leihau effeithiau niweidiol**
  Ddim yn berthnasol

- **Mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd yn parhau er gwaethaf potensial ar gyfer effaith**
  Ddim yn berthnasol

- **Mae'r Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd wedi cael ei ddileu oherwydd gwahaniaethu anghyfreithiol gwirioneddol neu bosibl.**
  Ddim yn berthnasol

## 4.3 Adolygu

Caiff y Weithdrefn hon ei hadolygu erbyn Ebrill 2024 yn unol â dyddiad adnewyddu'r polisi a'r weithdrefn.